**Atodiad C: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Mae'r ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yma'n galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) i drafod egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| **Cam 1 – Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODWCH:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
|---|---|
| **Enw'r Cynnig** | Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr. |
| **Adran** | Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Andrea Richards |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad** | Lisa Howell |
| **E-bost** | Lisa.J.Howell@rctcbc.gov.uk |
| **Ffôn** | Dd/B |
| **Disgrifiad cryno** | Y cynnig yw ceisio cymeradwyaeth ffurfiol i gychwyn ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol gyda'r rhanddeiliaid perthnasol ar y cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a newid dalgylch darpariaeth ôl-16 i gynnwys Ysgol Gyfun Aberpennar tu fewn dalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr. Cynigir bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cau erbyn mis Medi 2026 fan bellaf. Er mwyn galluogi cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn y dyddiad yma, fydd dim disgyblion blwyddyn 12 newydd yn cael eu derbyn i'r chweched dosbarth ar ôl Medi 2025.<br><br>Mae'r cynnig yn ceisio rhoi'r cyfle i ragor o ddisgyblion chweched dosbarth elwa ar y buddsoddiad sylweddol a gyflwynwyd drwy Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, a elwid gynt yn Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain, yn ardal Aberdâr, sy'n cynnwys darparu adeilad newydd Ysgol Gymunedol Aberdâr.<br><br>Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 19 oed yw Ysgol Gyfun Aberpennar, sydd wedi'i lleoli ar Heol Newydd, Aberpennar gyda lle i 1,394 o ddisgyblion (blwyddyn 7 i 13). Mae'r safle'n cynnwys pedwar adeilad ar wahân, wedi'u gosod dros sawl lefel gyda'r tir yn sylweddol donnog. Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gafodd ei gynnal ar gyfer y Cyngor ym mis Mehefin 2024, mae Ysgol Gyfun Aberpennar |

| | |
|---|---|
| | wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr, a gradd B o ran addasrwydd, lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon. Mae hyn yn golygu, o ran cyflwr, bod Ysgol Gyfun Aberpennar yn gadarn, yn weithredol, ac yn dangos dim ond mân ddirywiad. Er o ran addasrwydd, mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn foddhaol, yn cyflawni yn ôl y bwriad, ond nid yw'n cefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol mewn rhai meysydd.<br><br>Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg 11 i 19 oed sydd wedi'i lleoli ar Heol yr Ynys, Aberdâr gyda lle i 1,574 o ddisgyblion.. Roedd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn rhan o fuddsoddiad hamdden ac addysg ehangach yn lleol, lle cafodd Canolfan Hamdden Sobell gerllaw fuddsoddiad sylweddol at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned. Gan fod Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol newydd, a gafodd ei hadeiladu yn 2014, mae wedi'i graddio'n A o ran ei chyflwr a gradd A o ran addasrwydd. Mae'r adeilad wedi'i adeiladu i fodloni'r safonau a'r rheoliadau gofynnol, gan alluogi disgyblion Ysgol Gymunedol Aberdâr i elwa o amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer addysg yr 21ain ganrif. Mae gan Ysgol Gymunedol Aberdâr hefyd gyfleusterau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned leol, gan sicrhau bod eraill yn elwa o'r adnoddau newydd sydd ar gael.<br><br>Mae safle ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn rhan o'r buddsoddiad sylweddol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, canolbwyntiwyd yn benodol ar wella'r trefniadau rheoli traffig ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys gwell parcio i staff a chreu man gollwng pwrpasol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. |
| **Dyddiad** | 29 Tachwedd 2024 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio. (Defnyddwyr Gwasanaethau, Gweithwyr, y Gymuned Ehangach)** | • Corff Llywodraethu:<br>  ○ Ysgol Gyfun Aberpennar<br>  ○ Ysgol Gymunedol Aberdâr<br>• Rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu:<br>  ○ Ysgol Gyfun Aberpennar<br>  ○ Ysgol Gymunedol Aberdâr<br>• Disgyblion a staff:<br>  ○ Ysgol Gyfun Aberpennar<br>  ○ Ysgol Gymunedol Aberdâr |
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Nod y cynnig yw dechrau ar yr ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol perthnasol a gofynnol i geisio cymeradwyaeth ffurfiol i gau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymunedol Aberdâr. Er bod yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig yma'n ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, yr ysgol |

| | |
|---|---|
| | uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol yw Ysgol Gyfun Rhydywaun sydd wedi elwa'n ddiweddar ar gyllid drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i ehangu'r ysgol, cynyddu capasiti a darparu bloc addysgu newydd a chyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf.<br><br>Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA). Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r CSGA sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod y Cyngor trwy'r CSGA, cynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050.<br><br>Mae saith deilliant i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a dau ohonyn nhw yw:<br><br>• Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (y pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.<br><br>Y nod yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol sy'n hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng grwpiau blwyddyn. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae rhaglen 'Cymraeg Campus' y Siarter Iaith yn rhan o raglenni Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o gynyddu defnydd plant a phobl ifainc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac yn cyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae'n adnodd pwysig i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yng Nghymru, ni waeth beth fo'r cefndir ieithyddol.<br><br>Erbyn mis Tachwedd 2024, mae Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr ill dau wedi ymgysylltu â'r rhaglen ac wedi derbyn gwobr 'Cymraeg Campus' efydd y Siarter Iaith. Mae'r ddwy ysgol bellach yn gweithio tuag at gyflawni eu gwobrau arian. Bydd aelodau o staff a disgyblion yn y ddwy ysgol yn parhau i gael eu cefnogi i weithio tuag at gyflawni eu gwobrau aur. |

| | |
|---|---|
| | O ran gweithgareddau allgyrsiol eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Gyfun Aberpennar yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gyson yn cymryd rhan mewn Eisteddfodau lleol ac yn y blynyddoedd diwethaf, cyrhaeddodd yr ysgol y rownd genedlaethol yr Eisteddfod yr Urdd. Mae Menter Iaith yn cynnal clwb Cymraeg yn Ysgol Gyfun Aberpennar pob dydd Mercher ac mae'r Fenter wedi adrodd lefelau ymgysylltu cadarnhaol gyda'r sesiynau. Cynhelir y sesiynau drwy broses dendro gyda Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid y Cyngor.<br><br>Gallai'r cyfleusterau yn y ddwy ysgol gael eu defnyddio i ddarparu cyfleoedd i drydydd parti gynnig dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer oedolion neu unrhyw grwpiau iaith Gymraeg eraill. Byddai modd i hynny gyfrannu at gyflawni strategaeth **Cymraeg 2050** Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?**<br>**Os felly, rhestrwch nhw yma.** | • Corff Llywodraethu:<br>  ○ Ysgol Gyfun Aberpennar<br>  ○ Ysgol Gymunedol Aberdâr<br>• Rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu:<br>  ○ Ysgol Gyfun Aberpennar<br>  ○ Ysgol Gymunedol Aberdâr<br>• Disgyblion a staff:<br>  ○ Ysgol Gyfun Aberpennar<br>  ○ Ysgol Gymunedol Aberdâr<br><br>Dylai unrhyw effaith ar grwpiau Cymraeg fod yn niwtral gan na fydd cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn arwain at agor chweched dosbarth cyfrwng Saesneg newydd yn y Fwrdeistref Sirol. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Bob deng mlynedd mae'r DU yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad, sy'n cyfri'r holl bobl ac aelwydydd yma. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Yr Awdurdodau Lleol eraill oedd Caerdydd, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg. Mae pob un o'r Awdurdodau Lleol yma'n gyfagos, a gallai hynny ddangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth wedi'i roi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd y gwaith yma ei wneud trwy'r Siarter Iaith (Cymraeg Campus), ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a'r Urdd. Mae'r ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig yma wedi cyflawni gwobrau efydd 'Cymraeg Campus ' ac yn gweithio tuag at gyflawni gwobrau arian ar hyn o bryd. I gyflawni'r gwobrau yma, rhaid i'r ysgol ddangos defnydd cynyddol o Gymraeg achlysurol drwy gydol yr ysgol, ymhlith ffactorau allweddol eraill. Roedd gwerthusiad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 wrth gasglu gwybodaeth a data ar gyfer Adroddiad Adolygiad Blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen wedi'i chael ar y defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Cysylltwyd â 13 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg o wahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol a soniodd pob un ohonyn nhw am gynnydd yn y defnydd o Gymraeg achlysurol drwy'r ysgol gyda mwy o blant yn chwarae gemau ar y maes chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a rhagor o wasanaethau yn cael eu cynnal gyda ffocws ar yr iaith Gymraeg, hanes a threftadaeth. Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a phob ysgol uwchradd yn ardal Cwm Cynon yn ymgysylltu â'r rhaglen ac yn gweithio tuag at gyflawni'r gwobrau yma. Bydd cyflwyno'r rhaglen yma'n barhaus yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a nodir yn CSGA newydd y Cyngor (2022 i 2032).<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2022 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid i sefydlu darpariaeth trochi yn y Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r iaith. Agorodd y ddarpariaeth yma i ddisgyblion o fis Medi 2023, gan fabwysiadu model teithio peripatetig, lle mae'r garfan Trochi yn y Gymraeg yn teithio i ysgolion y disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i drochi disgyblion yn y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn parhau i ddatblygu ac mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i |

| | |
|---|---|
| | dyfu. Pan fydd galw am y gwasanaeth yn fwy na'r capasiti, bydd y Cyngor yn ystyried creu Uned Drochi yn y Gymraeg sy'n benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â'i raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | **Categori iaith a safonau ysgolion amgen/cyfagos**<br><br>Mae gan y Cyngor un deg chwech o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau mynediad i bawb. Mae dwy ysgol bob oed ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, sef Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Llanhari, un ysgol gynradd ddwy iaith i blant 3 i 11 oed, sef Ysgol Gynradd Dolau ac a 13 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i blant 3 i 11 oed. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgolion yma yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ardal Cwm Cynon, mae pedair ysgol yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion, yn cynnwys: un ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed a thair ysgol gynradd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed.<br><br>Yn unol â CSGA 2022-2032 y Cyngor, bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo i rieni a gwarcheidwaid. Mae hyn yn cynnwys y blynyddoedd cynnar, drwodd i addysg gynradd ac uwchradd, yna symud ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach, i bob disgybl, beth bynnag fo'u hanghenion dysgu. Mae hyrwyddo hyn yn hanfodol i gynyddu canran y disgyblion blwyddyn un mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â hyn, bydd prifathrawon y ddwy ysgol yn cael eu hannog i hyrwyddo a chyfeirio rhieni/disgyblion at y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael yn yr ardal leol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg, er mwyn annog unigolion i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y Cyngor ddarpariaeth drochi deithiol sydd newydd ei sefydlu a fydd yn cynnig cymorth lle bo angen. Yn ystod y flwyddyn academaidd yma (2023-24) mae carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor wedi cefnogi disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Cwm Cynon, yn benodol Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn. Mae rhwydweithio, marchnata ac ysgogi'r galw am drochi hwyr yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i nodi fel sbardun allweddol ar gyfer Rhondda Cynon Taf, fel y mae cefnogi'r broses bontio ar gyfer disgyblion sydd eisoes yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod nhw'n symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith Gymraeg. Mae hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt i'r Gwasanaeth Cymorth Trochi, ac yn faes y bydd angen dull wedi'i |

| | |
|---|---|
| | dargedu i gyflawni'r deilliannau gofynnol i ddarparu'r targedau a'r ymrwymiadau yn ein CSGA (2022-2032).<br><br>**Beth yw categori iaith yr ysgol sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig yma?**<br><br>Mae Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgolion cyfrwng Saesneg.<br><br>**Pa gyfleusterau sydd ar gael i aelodau o'r gymuned i ddysgu Cymraeg neu ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg?**<br><br>Mae dosbarthiadau ac ystafelloedd cyfarfod wedi'u hadeiladu yn yr ysgol newydd yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, sy'n golygu bod cyfleusterau ar gael i gynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pennaeth Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cael ei annog a'i gefnogi i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni a gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned ddysgu Cymraeg trwy gynnal gwersi Cymraeg a/neu unrhyw gyfleoedd eraill i'r gymuned gael cyfathrebu yn Gymraeg, fel sydd wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus mewn ysgolion eraill. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a nodir yn CSGA y Cyngor (2022 i 2032).<br><br>**A yw'n briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl oriau ysgol mewn unrhyw ysgol amgen i sicrhau safonau pellach yn y Gymraeg?**<br><br>Mae gan yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, sef Ysgol Gyfun Rhydywaun, sydd yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol, gyfleusterau at ddefnydd y gymuned ar gael yn y bloc addysgu newydd sbon. Gallai'r cyfleusterau yn yr ysgol gael eu defnyddio i ddarparu cyfleoedd ar ôl ysgol i rieni a gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned i ddysgu Cymraeg trwy gynnal gwersi Cymraeg a/neu unrhyw gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Canolfan Dysgu Gydol Oes yn ardal Taf-elái yn cael ei defnyddio'n aml ac yn cynnig ystod o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg i blant, pobl ifainc a dysgwyr sy'n oedolion. |

| | |
|---|---|
| | Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Gyfun Aberpennar yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr defnyddio'r iaith tu allan i'r ystafell dosbarth ac mewn cyd-destunau gwahanol. Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gyson yn cymryd rhan mewn Eisteddfodau lleol ac yn y blynyddoedd diwethaf, cyrhaeddodd yr ysgol y rownd genedlaethol yr Eisteddfod yr Urdd. Mae Menter Iaith yn cynnal clwb Cymraeg yn Ysgol Gyfun Aberpennar pob dydd Mercher ac mae'r Fenter wedi adrodd lefelau ymgysylltu cadarnhaol gyda'r sesiynau.<br><br>**Ym mha ffordd y byddai modd cefnogi ymgysylltiad rhieni a gwarcheidwaid a disgyblion ag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant iaith penodol y mae'r ysgol yn ei gynnig?**<br><br>Mae'r Cyngor wedi llunio a diweddaru llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog'. Cafodd y llyfryn yma ei gyhoeddi'n gyntaf ym mis Mawrth 2016 ac mae wedi'i diweddaru ers hynny. Mae'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' yn cynnwys gwybodaeth am fanteision derbyn addysg ddwyieithog, gan amlinellu'r llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb rhai cwestiynau cyffredin ynghylch yr opsiwn o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff y llyfryn ei ddosbarthu trwy ddarpariaethau Dechrau'n Deg, gwasanaethau cofrestru genedigaethau a lleoliadau gofal plant. Mae'r llyfrynnau wedi'u darparu i ddatblygwyr tai yn yr ardal Taf-elái o'r Fwrdeistref Sirol lle mae datblygiadau tai mawr ar y gweill, i'w rhoi i unrhyw ddarpar brynwyr newydd yn eu pecynnau gwerthu. Yn ogystal â hyn, mae Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a'r garfan Trochi yn y Gymraeg yn dosbarthu adnoddau i'r cyhoedd mewn achlysuron lleol gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol a chynelir ym Mharc Ynysangharad ym mis Awst 2024 ac achlysuron blynyddol<br>ledled Rhondda Cynon Taf, megis Picnic y Tedis a Pharti Ponty,.<br><br>Yn ddiweddar, mae sefydliadau Cymraeg lleol wedi dechrau cynnal achlysuron am ddim i blant cyn oed ysgol a theuluoedd trwy'r Gymraeg. Mae Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a'r garfan Trochi yn y Gymraeg yn fynychu'r achlysuron 'Miri Mawr' a chynelir gan Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Mae partneriaid o sefydliadau Cymreig hefyd yn fynychu'r i hyrwyddo addysg Gymraeg yn yr ardal. Fe fydd chwech achlysur yn cael eu cynnal ledled y Sir yn 2024/25 er mwyn i bawb yn Rhondda Cynon Taf y cyfle i fynd i'w hachlysur lleol a chael gwybodaeth am yr opsiynau a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw ar y daith i ddod yn ddwyieithog. |

| | |
|---|---|
| | Mae Llyfryn 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor hefyd yn darparu ystod o wybodaeth i rieni a gwarcheidwaid, gan gynnwys cyngor ar ddewis ysgol, gwybodaeth am ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol a chyfeirlyfr o ysgolion. Mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r llyfryn 'Dechrau yn yr Ysgol' i gynnwys gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, ynghyd â gwybodaeth am y ddarpariaeth newydd o ran trochi yn y Gymraeg, gan sicrhau bod yr wybodaeth yma ar gael yn rhwydd i rieni a gwarcheidwaid.<br><br>Mae Cymraeg i Blant yn cynnal sesiynau grŵp i fabanod am ddim bob wythnos ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r sesiynau yma'n ddwyieithog ac yn cynnwys tylino babi, ioga i fabanod babi ac amser rhigwm Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth yma'n sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn derbyn negeseuon cynnar allweddol yn ystod y cyfnod cyn-geni ac ar ôl cael babi, ac yn cael gwybod am y llwybr dwyieithog sydd ar gael i'w plentyn a'r cynnig cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol. Mae'r grŵp babanod Cymraeg i Blant agosaf yn cwrdd yn Llyfrgell Aberdâr bob dydd Mercher o 13:00.<br><br>Mae Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor yn gweithio gyda Menter Iaith a'r Urdd i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith pwrpasol i bobl ifainc, gan dynnu sylw at bwysigrwydd meddu ar y sgil o allu cyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid hefyd yn cyflwyno achlysuron cymdeithasol a gweithgareddau i bobl ifainc trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cynnwys cyfleoedd preswyl, eisteddfodau, chwaraeon ac achredu.<br><br>Ar gyfer dysgwyr sy'n pontio i golegau lleol yn hytrach nag aros mewn addysg chweched dosbarth, fe fydd cyfleodd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg. Mae Coleg y Cymoedd yn cynnig yr opsiwn i gwblhau rhai elfennau o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud ac mae'r coleg yn annog myfyrwyr i'w wneud. Yn ogystal ag hyn, mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith i gynnal fforymau ieuenctid Cymraeg sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ymgysylltu a'r Gymraeg tu allan i'w dysgu.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2022 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'n gyllid i sefydlu darpariaeth trochi yn y Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r iaith. Mae'r ddarpariaeth, sydd nawr wedi'i hen sefydlu ac yn ennill momentwm ledled Rhondda Cynon Taf, yn mabwysiadu model peripatetig o gyflwyno |

| | |
|---|---|
| | gyda'r athro trochi yn ymgysylltu â disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gael eu trochi yn y Gymraeg. Pan fydd galw am y gwasanaeth yn fwy na'r capasiti, bydd y Cyngor yn ystyried creu Uned Drochi yn y Gymraeg sy'n benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â'i raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B.<br><br>**Gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac unrhyw gamau gweithredu y bydd eu hangen yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid er mwyn parhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun.**<br><br>Mae'r Cyngor o'r gred y dylai pob disgybl gael cyfleoedd priodol i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd i'w galluogi i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn bywyd bob dydd er mwyn bodloni gofynion yr 21ain Ganrif.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd targed **Cymraeg 2050** Llywodraeth Cymru a pha mor ganolog yw'r system addysg yng Nghymru i gyflawni ei gweledigaeth. Mae CSGA newydd y Cyngor (2022 i2032) yn nodi gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn cynyddu ei gyfraniad i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'n adeiladu ar waith y CSGA blaenorol (2017 i 2022) ac yn nodi cynllun gweithredu sy'n dangos sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni ein gweledigaeth ddeng mlynedd.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai hyn yn galluogi disgyblion i ddilyn cwricwlwm amrywiol gydag opsiynau i arbenigo yn eu maes diddordeb a allai gefnogi Deilliant 4 y CSGA sy'n anelu at gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, pe bai disgyblion yn dewis astudio'r Gymraeg fel pwnc ar gyfer Safon Uwch. Bydd yr ymgysylltiad parhaus o fewn 'Cymraeg Campus' y Siarter Iaith yn cefnogi deilliant 5 y CSGA, sy'n canolbwyntio ar ddarparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.<br><br>Yr allwedd i gyflawni'r deilliannau a nodir yn CSGA y Cyngor yn llwyddiannus yw marchnata a hyrwyddo addysg Gymraeg ar y cyfan.. Dros y misoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi paratoi ystod o fideos hyrwyddo sy'n ymdrin â saith deilliant y CSGA. Mae'r fideos yma'n cynnwys recriwtio athrawon, trochi yn y Gymraeg, addysg ADY cyfrwng |

| | |
|---|---|
| | Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 a phontio. Mae deunydd wedi'i baratoi sy'n cynnwys ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd, cyfweliadau gyda phenaethiaid ac athrawon, cyfweliadau gyda rhieni a chyfweliadau gyda disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Bydd y fideos yma'n rhan ehangach o ymgyrch farchnata ehangach sy'n canolbwyntio'n benodol ar gynyddu niferoedd yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg a lansiwyd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2024.<br><br>Mae gan y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol ddigon o leoedd i ateb y galw. Serch hynny, mae yna nifer o ysgolion lle mae'r galw bron yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael. O'r herwydd, mae'r Cyngor wedi, neu yn y broses o gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion yma drwy nifer o brosiectau a chynigion. Mae prosiectau a fydd yn mynd i'r afael â'r mater yma'n cynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr a gafodd ei ehangu a'i gwblhau'n ddiweddar, gan gynnwys cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg pwrpasol; ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen (Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf) ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn ag agorodd ym mis Medi 2024;ehangu Ysgol Gyfun Rhydywaun gyda bloc addysgu newydd a chyfleusterau chwaraeon; a'r ysgol cyfrwng Cymraeg arfaethedig newydd i wasanaethu datblygiad tai Llanilid, sydd yn cael ei ymgynghori ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i gynyddu ansawdd ac argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar trwy fuddsoddi'n sylweddol mewn nifer o ddarpariaethau trwy gynlluniau ariannu amrywiol, megis Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau continwwm iaith o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod y galw cynyddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei fodloni.<br><br>Does dim angen unrhyw newidiadau i'r cynigion yma er mwyn cydymffurfio â'r CSGA. |

**Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill – hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.<br><br>**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio yma.** | | | | |
| **A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn yma?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. | Cadarnhaol. | Mae gan bawb sy'n byw yng Nghymru yr hawl i siarad â siaradwr Cymraeg wrth ymdrin ag unrhyw faterion cyhoeddus. Bydd y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'i safonau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi strategaeth bum mlynedd sy'n amlinellu ei gamau gweithredu i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae modd i unrhyw un sy'n dymuno gohebu â'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny. | • Mae adroddiad Comisiynydd y Gymraeg 'Sefyllfa'r Gymraeg 2016-20: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg' wedi ei gwneud yn glir fod angen i sefydliadau cael trefniadau mewnol cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a chynlluniau iaith a bod capasiti digonol o siaradwyr Cymraeg i | • Os nad yw person yn gallu siarad Cymraeg, rhaid iddo alw ar gydweithiwr yn yr adeilad sy'n gallu siarad Cymraeg, os gofynnir am hynny, neu mae modd cynnig gwasanaeth galw yn ôl pan fydd siaradwr Cymraeg ar gael. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae dosbarthiadau ac ystafelloedd cyfarfod wedi'u hadeiladu yn yr ysgol newydd yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, sy'n golygu bod cyfleusterau ar gael sy'n cynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pennaeth Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cael ei annog a'i gefnogi i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael er mwyn cynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned i ddysgu Cymraeg trwy gynnal gwersi Cymraeg a/neu unrhyw gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cefnogi targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.<br><br>O safbwynt aelodau o staff, mae ystod o gyfleoedd ar gael i staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf os ydyn nhw'n dymuno gwella | ddarparu'r gwasanaethau Cymraeg sy'n ofynnol.<br><br>• Gallai poblogrwydd dosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg ddangos bod galw am ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion ar lefelau amrywiol mewn 6 lleoliad gwahanol ledled Rhondda Cynon Taf, gan ddangos y galw am ddarpariaeth ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>• Caiff data a gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfleoedd yma ei rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg | • Bydd yr ysgol yn gweithio gydag Ysgol Gymunedol Aberdâr i'w hannog a'i chefnogi i ystyried cynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, neu unrhyw sesiynau/dosbarthiadau Cymraeg eraill yn yr ysgol.<br><br>• Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i unrhyw staff sy'n chwilio am gyfleoedd i ddysgu, gwella neu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg.<br><br>• Bydd Swyddog Cynllun |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | neu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg fel bod modd iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach yn y gwaith. Mae'r Consortiwm yn hyrwyddo'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr yn Rhondda Cynon Taf yn rheolaidd. Mae'r cyfleoedd yma'n cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>• Dysgu proffesiynol anghydamserol – Cymraeg – lefelau Cyn-mynediad, Mynediad a Sylfaen<br><br>• Cyrsiau gloywi'r Gymraeg – dim sgiliau Cymraeg, lefelau mynediad, sylfaen ac uwch<br><br>Mae'r Consortiwm yn hyrwyddo'r cyfleoedd yma trwy eu sianeli perthnasol gyda'r ysgolion. Mae Cyfarwyddiaeth Addysg y Cyngor yn hyrwyddo'r cyfleoedd yma ymhellach trwy hyrwyddo gydag ysgolion yn uniongyrchol | mewn Addysg y Cyngor ac aelodau o is-grŵp Deilliant 7 y CSGA sydd wedi'i sefydlu i ganolbwyntio'n benodol ar y deilliant yma, sydd â'r nod o gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>• Yn unol â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor, rhaid i unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y Cyngor fod yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.<br><br>• Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn ardal | Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn parhau i weithio gyda staff yn fewnol a sefydliadau partner Cymraeg i annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>• Sicrhau bod unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y Cyngor yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | drwy gydol y flwyddyn academaidd.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Gwasanaethau Cymraeg yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ofynnol i holl aelodau o staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg Lefel 1. Trwy weithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, yn benodol y tiwtor Cymraeg mewnol, anogir pob aelod o staff i barhau i wella eu sgiliau Cymraeg y tu hwnt i Lefel 1. Bydd aelodau o staff sy'n dewis gwneud hyn yn cael eu cefnogi'n llawn. Bydd hyn yn cefnogi'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor i greu gweithlu dwyieithog gyda'r gallu i weithio a darparu | Cynon yn gweithio fel consortiwm i gynnig astudio'r Gymraeg fel Lefel A ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yw'r ysgol gynhaliol ar eu cyfer. Mae unrhyw ddysgwyr sydd am astudio'r Gymraeg fel Lefel A yn ardal Cynon yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr i'w wneud. | yn arwain at oedi. Mae adeiladau ysgol newydd bellach hefyd yn cynnwys braille dwyieithog ar arwyddion ysgol gan ddarparu cyfle cyfartal o ran y Gymraeg a chydraddoldeb.<br><br>rwyddo'r opsiwn i tudio'r Gymraeg fel fel A ymhlith golion cyfrwng mraeg yn ardal non. Mae'r Coleg mraeg nedlaethol yn trefnu weliadau i ysgolion lled Cymru i rwyddo astudio'r mraeg fel Lefel A. ae digwyddiad wedi'i efnu yn Ysgol Gyfun eorci yn nhymor y anwyn, dyma fydd ysgol gynhaliol a dd ysgolion cyfrwng esneg cyfagos yn el eu gwahodd i'r gwyddiad. Fe gall gol Gymunedol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau'n ddwyieithog.<br><br>O safbwynt y dygwyr, Ysgol Gymunedol Aberdâr yw'r ysgol cynhaliol yn ardal Cynon ar gyfer unrhyw ddysgwyr cyfrwng Saesneg sy'n dymuno astudio'r Gymraeg fel Lefel A. Yn ogystal ag hyn, mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Un enghraifft o hyn yw eu cyfranogiad mewn Eisteddfodau lleol, lle bod rhaid i unrhyw gyfranogwyr cymryd rhan trwy ddefnyddio'r Gymraeg. | | erdâr cysylltu â'r leg i ofyn a oes odd i ddigwyddiad fel n cael ei gynnal yn hysgol, gan hodd dysgwyr o golion cyfrwng esneg eraill yn ardal non. |
| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn yma?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd a/neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg.**<br><br>e.e. addysgu cyfrwng Cymraeg/cyfleoedd astudio. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | Cadarnhaol. | Mae dosbarthiadau ac ystafelloedd cyfarfod wedi'u hadeiladu yn yr ysgol newydd yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, sy'n golygu bod cyfleusterau ar gael sy'n cynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pennaeth Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cael ei annog a'i gefnogi i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael er mwyn cynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned i ddysgu Cymraeg trwy gynnal gwersi Cymraeg a/neu unrhyw gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, bydd y pennaeth yn cael ei annog i gyfeirio rhieni a gwarcheidwaid at ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a gaiff eu cynnig gan Dysgu Cymraeg Morgannwg. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau sydd wedi'u nodi yng | • Gallai poblogrwydd dosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg ddangos bod galw am ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion ar lefelau amrywiol mewn chwech lleoliad gwahanol ledled Rhondda Cynon Taf, gan ddangos y galw am ddarpariaeth ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>• Caiff data a gwybodaeth yn ymwneud â Champws Cymraeg ei rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau o is-grŵp Deilliant 5 y CSGA sydd wedi'i sefydlu i | • Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i'w hannog nhw i gynnal achlysuron a sesiynau Cymraeg. Bydd yr ysgolion yn cael eu hannog i wahodd grwpiau Cymraeg i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael i gynnal unrhyw ddosbarthiadau /sesiynau Cymraeg eraill yn yr ysgol.<br><br>• Bydd y gweithlu yn yr ysgolion yn cael ei gefnogi gyda dysgu proffesiynol parhaus, rhwydweithio, a chyfleoedd i rannu arfer gorau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.<br><br>Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â CSGA y Cyngor, mae'n holl bwysig sicrhau gweithlu digon o faint ac â gallu digonol mewn ysgolion. Er mwyn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau ein bod yn creu gweithlu ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi'r sawl sy'n dysgu'r Gymraeg a dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Mae hyn wedi'i wneud drwy | ganolbwyntio'n benodol ar y deilliant yma, sydd â'r nod o gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol. | • Fe fydd pob ysgol cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i ennill Gwobrau'r Cymraeg Campus. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gyflwyno'r Siarter Iaith (Cymraeg Campus). Erbyn mis Tachwedd 2024, roedd pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, ond am yr ysgol newydd yn YGG Awel Taf, wedi derbyn y wobr efydd. Mae YGG Awel Taf wedi ymrwymo a'r rhaglen ac maent nhw'n gweithio tuag at ennill ei wobr efydd. 14 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr arian a 7 wedi derbyn y wobr aur. Mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr efydd ac 1 wedi derbyn y wobr arian. Mae rhaglen 'Cymraeg Campus' wedi'i rhoi ar waith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg. Erbyn mis Tachwedd 2024, roedd 59 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd, 24 wedi derbyn y wobr arian a 4wedi derbyn y wobr aur. Mae cyfanswm o 7 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | wobr efydd a 2 wedi derbyn y wobr arian.<br><br>Yn fwy diweddar, mae'r Consortiwm wedi dechrau gweithio gydag ysgolion arbennig, dosbarthiadau cymorth dysgu ac unedau cyfeirio disgyblion yn Rhondda Cynon Taf i roi rhaglen y Siarter Iaith Gymraeg (Cymraeg Campus) ar waith. Hyd yn hyn, mae 5 ysgol/uned arbennig wedi ennill gwobr efydd Cymraeg Campus.<br><br>O bob ysgol cyfrwng Saesneg yn y Sir, dim ond un ysgol sydd heb ymrwymo â'r rhaglen hyd at hyn. Mae'r Consortiwm yn parhau i weithio gyda'r ysgol i annog pobl i ddilyn y rhaglen ac mae'n gweithio'n frwd gydag ysgolion ac unedau arbennig i'w cefnogi i gyflwyno'r rhaglen.<br><br>Mewn partneriaeth â'r Consortiwm a'r Urdd, cefnogir ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol i | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd dysgu Cymraeg dwys trwy brosiect Cymraeg Bob Dydd yr Urdd.<br><br>Ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr yn yr ysgol a'r tu hwnt. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, i sicrhau bod dysgwyr ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob dysgwr ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022. | | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br><br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned | Cadarnhaol. | Erbyn hyn mae gan y Gymraeg statws swyddogol a deddfwriaeth mewn lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau | • Caiff data a gwybodaeth sy'n ymwneud â Champws Cymraeg y Siarter Iaith eu rhannu â Swyddog | • Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo a chynyddu defnydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser. | | Cymraeg. Yr her yw ehangu'r cyfleoedd i bobl allu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd trwy greu'r amodau cywir i ddisgyblion newydd o bob oed ddatblygu a defnyddio eu sgiliau o'r cyfnodau cynharaf a thrwy bob cam o addysg. Er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, bydd yr ysgolion yn parhau i dderbyn cefnogaeth er mwyn ennill gwobr arian Cymraeg Campus y Siarter Iaith.<br><br>Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol amrywiaeth o adnoddau ar gael i hyrwyddo astudio'r Gymraeg fel Lefel A gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae'r coleg yn hyrwyddo'r cyfleoedd trwy eu sianeli ac mae'r Cyngor hefyd yn rhannu negeseuon trwy gydol y flwyddyn sy'n ymwneud â hyrwyddo astudio'r Gymraeg fel Lefel A.<br><br>Mae strategaeth uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor bob chwarter drwy Swyddog y Gymraeg y Consortiwm.<br><br>• Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Choleg Cymraeg Cenedlaethol i baratoi ymgyrch sy'n ffocysu ar 'Pam astudio Cymraeg?' sy'n canolbwyntio ar fanteision astudio'r Gymraeg fel Lefel A. Mae'r coleg wedi creu ystod o adnoddau hyrwyddo o fideos i daflenni, mae'r rhain yn cael eu rhannu gydag ysgolion trwy gydol y flwyddyn.<br><br>• Mae'r galw am ddarpariaeth drochi ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ar hyn o bryd, mae'r garfan Trochi yn y | disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r holl ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi i ennill gwobrau 'Cymraeg Campus'.<br><br>• Hyrwyddo'r opsiwn i astudio'r Gymraeg fel Lefel A ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ardal Cynon. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn trefnu ymweliadau i ysgolion ledled Cymru i hyrwyddo astudio'r Gymraeg fel Lefel A. Mae digwyddiad wedi'i threfnu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | galw am newidiadau pellgyrhaeddol a gwthio ffiniau i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen i bob awdurdod lleol drawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael trwy garfan trochi yn y Gymraeg y Cyngor i unrhyw rieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn/plant o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion sy'n penderfynu trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n llawn gan y Garfan Trochi yn y Gymraeg. Bydd hyn yn cefnogi'r Cyngor i gynyddu niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol yn unol | Gymraeg yn cefnogi disgyblion yn ardal Cwm Cynon:<br>○ Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn<br><br>• Mae cynrychiolwyr o'r holl feysydd gwasanaeth rydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw (Cymraeg, Ieuenctid, Hamdden, Cerddoriaeth, Celfyddydau a Diwylliant) yn aelodau o grŵp Deilliant 5 CSGA y Cyngor, sy'n canolbwyntio'n benodol ar greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, ond hefyd yn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ar draws pob maes gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach. | yn Ysgol Gyfun Treorci yn nhymor y gwanwyn, dyma fydd yr ysgol gynhaliol a bydd ysgolion cyfrwng Saesneg cyfagos yn cael eu gwahodd i'r digwyddiad. Fe gall Ysgol Gymunedol Aberdâr cysylltu â'r coleg i ofyn a oes modd i ddigwyddiad fel hyn cael ei gynnal yn eu hysgol, gan wahodd dysgwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg eraill yn ardal Cynon.<br><br>• Hyrwyddo'r opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | â'r targedau sydd wedi'u hamlinellu yn y CSGA<br><br>Mae Strategaeth Pum Mlynedd Hybu'r Gymraeg y Cyngor (2022 – 2027) ynghyd â'i gynllun gweithredu atodol wedi'u hystyried er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle, a hynny trwy wasanaethau'r Cyngor a thrwy'r gymuned a chreu amodau ffafriol. Mae Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol a Gwasanaethau Cerdd Cyngor Rhondda Cynon Taf i gyd yn gweithio mewn modd rhagweithiol tuag at ddatblygiad parhaus y cyfleoedd i ddisgyblion a'r gymuned ehangach | Caiff gwybodaeth ei rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau'r is-grŵp yn ystod cyfarfodydd chwarterol. | addysg cyfrwng Cymraeg drwy rannu gwybodaeth ac adnoddau.<br><br>• Bydd Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn parhau i weithio gyda staff yn fewnol a sefydliadau partner Cymraeg i annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>Gwasanaethau Cymraeg:<br>○ Datblygu deunyddiau i'w darparu i staff arlwyo mewn ysgolion i'w cynorthwyo â'u sgiliau Cymraeg a'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn yr ysgolion.<br>○ Archwilio dichonolrwydd gosod rhaglenni digidol dysgu/cefnogi cyfrwng Cymraeg ar ddyfeisiau pob aelod o staff i gefnogi eu sgiliau a'u datblygiad ieithyddol.<br><br>Gwasanaethau Ieuenctid:<br>○ Cynnal teithiau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg i roi cyfleoedd iddyn nhw i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.<br>○ Creu deunyddiau hyrwyddo i'w gosod mewn clybiau ieuenctid ledled y Fwrdeistref Sirol. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ○ Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd a Menter Iaith i ddatblygu Fforymau Ieuenctid Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ynghyd â champysau Coleg y Cymoedd.<br><br>Gwasanaethau Hamdden:<br>○ Gweithio gyda'r Urdd i gyflwyno gweithgareddau chwaraeon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymchwilio i ffyrdd o ymgorffori'r un ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy ddefnyddio model dwyieithog.<br>○ Gweithio gyda Menter Iaith i ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg mewn sesiynau hamdden.<br>○ Gweithio'n agos gyda'r clwb chwaraeon cyfrwng Cymraeg cyntaf sydd newydd ei sefydlu yn Rhondda Cynon Taf, wedi'i leoli yn Aberdâr. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Y Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol:<br>○ Cydweithio â Gwasanaethau Ieuenctid ar raglen o ddarpariaeth ledled lleoliadau diwylliannol a chymunedol i annog defnydd o'r Gymraeg ac ymgorffori'r Gymraeg mewn achlysuron yn y gymuned.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau aliniad clir â'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd. Mae'r ymrwymiad yma i hybu'r Gymraeg, cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg staff a disgyblion ledled ysgolion Rhondda Cynon Taf yn cael ei ailddatgan yng Nghynllun Strategol Addysg y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2022 – 2025. | | |

**<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith** | **Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw** |
|---|---|---|---|---|

| | **unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | | **effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â safonau statudol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg**.<br><br>e.e., cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i gyflawni gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Cadarnhaol. | Bydd yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y Cyngor.<br><br>Lle bo modd, bydd yr ysgol, y Cyngor a'r Consortiwm yn cefnogi staff cynorthwyol ysgolion, gweithwyr cymorth dysgu ysgolion a staff addysgu i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y Gymraeg ar lefelau amrywiol er mwyn diwallu anghenion a nodwyd. | • Bydd pob gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynigion yma'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.<br><br>• Fe fydd y nifer o staff cymorth mewn ysgolion, gweithwyr cymorth/cynnal dysgu ysgolion a staff addysgu sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau iaith Gymraeg ar wahanol lefelau yn cael eu adrodd arno pob chwarter. | • Anogaeth i gymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau Cymraeg ar wahanol lefelau.<br><br>• Yn ystod y misoedd diwethaf, cynhaliodd Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor gyfres o sesiynau cryno ar bynciau amrywiol yn ymwneud â'r safonau. Cafodd y sesiynau yma eu hyrwyddo i bob aelod o staff yn fewnol ac anogwyd pawb i fynychu'r sesiynau i gryfhau eu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o gydymffurfio â'r safonau yma. |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Cadarnhaol. | Er bod y cynnig yma'n ymwneud ag ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'n ymwneud â Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor y mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn ei hariannu ar y cyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gweledigaeth y Cyngor o gael ysgolion da yn cael ei fodloni, a bod bob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag fo'u hangen dysgu, â mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg da. | • Mae Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu - Rhaglen Amlinellol Strategol yn cynnwys ystod eang o ysgolion (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn rhannau amrywiol o'r Fwrdeistref Sirol.<br><br>• Yn ardal Cwm Cynon, mae YG Rhydywaun wedi elwa o fuddsoddiad gwerth £12.1 miliwn yn ddiweddar er mwyn cynyddu capasiti yn yr ysgol a darparu cyfleusterau gwell sy'n addas ar gyfer addysg yn y 21ain ganrif.<br><br>• Yng Nghwm Cynon, mae ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr wedi elwa o fuddsoddiad gwerth £4.7 miliwn yn ddiweddar er mwyn | • Hyrwyddo'r dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer grwpiau yn y gymuned, ac ati., yn y cyfleusterau cymunedol pwrpasol cwbl hygyrch yn Ysgol Gymunedol Aberdâr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | adeiladu estyniad i'r ysgol â chyfleuster gofal plant dynodedig ar y safle. | |

**Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? Gallai darpariaeth arall gael ei defnyddio? Ble dylai'r ddarpariaeth fod?

| **Beth ydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** |
|---|---|---|
| Cefnogi penaethiaid Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr i hybu defnydd cymunedol a thrydydd parti o'r cyfleusterau at ddiben cyflwyno ystod o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chefnogaeth sefydliadau Cymraeg fel Dysgu Cymraeg Morgannwg, Menter Iaith a'r Urdd i gynorthwyo gyda hyrwyddo'r Gymraeg. | Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a phenderfyniad wedi'i wneud. | Ysgolion yr 21ain Ganrif Rhondda Cynon Taf. |
| Gweithio gyda'r ddwy ysgol a Dysgu Cymraeg Morgannwg i gynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn yr ysgolion. Sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau trwy farchnata a hyrwyddo trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, a thrwy'r gymuned leol. | Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a phenderfyniad wedi'i wneud. | Ysgolion yr 21ain Ganrif Rhondda Cynon Taf.<br>Dysgu Cymraeg Morgannwg |
| Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg trwy farchnata a hyrwyddo darpariaeth trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn effeithiol. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy ddosbarthu taflenni hyrwyddo a rhoi ymgyrch farchnata ar waith trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol gan ddefnyddio'r fideos sydd wedi eu creu i hyrwyddo'r gwasanaeth. | Parhaus. Fe lansiwyd yr ymgyrch marchnata yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2024. | Carfan Trochi yn y Gymraeg Rhondda Cynon Taf. |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i fynd ati i farchnata a hyrwyddo'r cyfleodd datblygu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr ysgol sy'n dymuno dysgu neu gwella eu sgiliau Cymraeg. | Gwaith parhaus – rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r Consortiwm i hyrwyddo'r cyfleoedd proffesiynol sydd ar gael ac yn annog ymarferwyr i ystyried y cyfleoedd yma. | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. |
| Bydd y Consortiwm yn parhau i weithio gydag ysgolion i hyrwyddo rhaglen y Siarter Iaith i gynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg ym mhob ysgol, gan gynnwys ysgolion ac unedau arbennig. | Gwaith parhaus – mae'r Consortiwm yn parhau i gefnogi ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen i symud ymlaen er mwyn cyflawni eu gwobrau. Mae'r Consortiwm yn parhau i wneud ymdrechion i ymgysylltu â'r 1 ysgol sy'n weddill sydd ddim wedi ymgysylltu eto. | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. |
| Cydlynydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, a chyfrannu at ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. | Gwaith parhaus – mae'r CSGA yn gynllun deng mlynedd; byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid ar ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â'r CSGA. | Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf. |
| Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl eu rhoi ar waith, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu. | | |
| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** | |
| Dd/B. | Dd/B. | |

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at wasanaethau Cymraeg – SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6),

| | | |
|---|---|---|
| ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.<br><br>Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol. | | |
| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg.** |
| | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
| Hoffai'r Uned Gwasanaethau'r Gymraeg diolch swyddogion am ystyried sut y gallai'r cynnig hwn effeithio ar gyfleoedd i bobl dysgu, defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith disgyblion chweched dosbarth Cwm Cynon. Byddem yn annog swyddogion i fanylu'n fwy penodol ynghylch cyd-destun chweched dosbarth/Lefel A, ynghylch y ddwy ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg (fel pwnc ac fel cyfrwng hyfforddi/gweithgareddau allgyrsiol) a'r cyfleoedd a gynigir gan sefydliadau eraill i roi darlun cliriach o'r cyfleoedd a'r heriau gyda'r yn benodol i'r cynnig penodol/grŵp hwn.<br><br>O ran canlyniadau'r ymgynghoriad, mae'n ymddangos bod canran eithaf uchel o'r ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol – ydyn ni'n gwybod pam mae hynny? Oes gweithgareddau ac ati yn cael eu cynnal yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn y Gymraeg a allai gael eu colli/effeithio oherwydd y cynnig hwn, ac a ellir ailadrodd y rhain yn Ysgol Gymunedol Aberdâr/mannau eraill yn lleol? | 04.02.2025 | Ychwanegwyd rhagor o fanylion at yr asesiad o ran ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg ar gyfer y ddwy ysgol a gynhwysir yn y cynnig hwn. Mae manylion hefyd wedi eu hychwanegu ar y cynnig i astudio'r Gymraeg fel Safon Uwch mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ardal Cynon yn y cwm. |
| **Sylwadau'r Ymgynghoriad** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |

<table>
<tr>
<td>Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:<br><br>1. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?<br>2. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br>3. Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?<br><br>Mae'r tabl dilynol yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd eu derbyn gan yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau. O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r cynnig wedi'i ddiweddaru'n unol â hynny.<br><br>
<table>
<tr><th colspan="5">Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad</th></tr>
<tr><th>Cwestiynau</th><th colspan="4">Atebion</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Sut byddai'r cynnig/cynigion, yn eich barn chi, yn effeithio ar gyfleoedd i</td><td>Yn negyddol</td><td>Ddim yn gwybod</td><td>Yn gadarnhaol</td><td>Ddim yn siŵr</td></tr>
<tr><td colspan="4">%</td></tr>
<tr><td>46.0%</td><td>26.0%</td><td>5.0%</td><td>23.0%</td></tr>
</table>
</td>
<td>27.01.2025</td>
<td>Dim newidiadau i’w gwneud.</td>
</tr>
</table>

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg a'i hyrwyddo? | | | | | | | |
| | Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg? | **Cynyddu Effeithiau Cadarnhaol** | | **Lleihau Effeithiau Negyddol** | | **Ddim yn siŵr** | | |
| | | • Gwneud dysgu Cymraeg yn hwyl, addasu'r ffordd y caiff ei haddysgu fel ei bod yn darparu ar gyfer | | Dim. | | • Rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar y Gymraeg. | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | pawb gan nad yw pob disgybl yn dysgu yn yr un ffordd.<br>• Hyrwyddo sgiliau sylfaenol [yn yr iaith Gymraeg] i rieni/gwarcheidwaid, neiniau a theidiau, ac ati. | | Nid yw'n cael unrhyw effaith ar y disgyblion sy'n mynychu'r naill ysgol na'r llall.<br>• [Ni fydd dai] effaith ogwbl, ond dyliid hyb u'r Gymraeg. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | **Ydw** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | | | |
| | | **%** | | | | | |
| | | 36.0% | 18.0% | 46.0% | | | |

**Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**

Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy?

Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig yma ac yn cynnal cyfarfodydd adolygu cyfnodol.

**Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig**

Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad.

*Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:*

Y cynnig yw cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Roedd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn rhan o fuddsoddiad hamdden ac addysg ehangach yn lleol, lle cafodd Canolfan Hamdden Sobell gerllaw fuddsoddiad sylweddol at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned. Gan fod Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol newydd, a gafodd ei hadeiladu yn 2014, mae wedi'i graddio'n A o ran ei chyflwr a gradd A o ran addasrwydd. Mae'r adeilad wedi'i adeiladu i fodloni'r safonau a'r rheoliadau gofynnol, gan alluogi disgyblion Ysgol Gymunedol Aberdâr i elwa o amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer addysg yr 21ain ganrif.

Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-

destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022. Bydd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn parhau i gael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn drwy gyflawni 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.

Mae gan Ysgol Gymunedol Aberdâr hefyd gyfleusterau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned leol, gan sicrhau bod eraill yn elwa o'r adnoddau newydd sydd ar gael. Bydd yr ysgol yn cael ei hannog a'i chefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.

Byddai modd i hynny gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a chyfrannu at y CSGA.

**Cam 7 – Cymeradwyo**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Lisa Howell | **Enw Cyfarwyddwr y Gwasanaeth:** | Andrea Richards |
| **Swydd** | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif | **Rydw i'n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau** |
| | | | **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu** |
| | | | **Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg** |
| **Dyddiad** | 29 Tachwedd 2024 | **Dyddiad** | 29 Tachwedd 2024 |